Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Eich cyf . Your ref
Ein cyf . Our ref ATI 284

**Manylion Staffio'r Cynulliad**

**24 Medi 2010**

Cyfeiriaf at eich cais a ddaeth i law ar 8 Medi, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch:

*nifer y bobl ymhob adran/cangen o'r Cynulliad*

Gellir gweld nifer y swyddi sy'n cyfateb â swyddi llawn amser ar 31 Awst 2010 yn y tabl isod. Mae'r wybodaeth a roddir yn cyfeirio at benodiadau parhaol, penodiadau sy'n gyfyngedig eu cyfnod a'r rhai dros dro.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am strwythur cyfundrefnol y Cynulliad ar wefan y Cynulliad yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-directorates.htm

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes unrhyw gwestiynau gennych ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 898889
E-bost/Email:Kevin.willoughby@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire/Sir Gaer
SK9 5AF

| | |
|---|---|
| Uned Cydlynu Busnes y Cynulliad | 2.00 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 23.40 |
| Uned Gorfforaethol | 27.56 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 30.10 |
| Cysylltiadau Allanol | 52.42 |
| Gwasanaethau Cyllidol | 16.35 |
| Adnoddau Dynol | 17.82 |
| TGCh | 16.00 |
| Gwasnaethau Cyfreithiol | 9.40 |
| Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth | 24.68 |
| Cymorth Busnes i'r Aelodau | 9.00 |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 35.09 |
| Diogelwch | 60.03 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 34.03 |
| Cyfanswm | 357.87 |